

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd 2019 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Maldwyn Jones, Gwynedd Jones, Eilir Rowlands, Meilir Jones, Gwenda Morris, Bethan Thomas, y Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eifion Davies, Alwyn Jones, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Gwenda Evans, ac Iolo Evans.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

v) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Ffosiwyd ar yr A4212 ger Llyn Celyn – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu i'w clirio.

ii) Draen ar yr A494 ger Llyn Cilan Goch – roedd trefniant wedi cael ei wneud i'w lanhau.

b) Lloches bws newydd Llanfor.

Cafwyd cadarnhad gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd nad oedd y llythyr o wrthwynebiad a dderbyniodd y Cyngor Cymuned yn effeithio ar eu penderfyniad hwy i gefnogi'r cais am loches newydd. Nid oedd y clerch wedi derbyn adborth gan yr Adran Gynllunio hyd yn hyn felly cytunwyd i'w drafod unwaith y derbynni'r hyn.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Meysydd Chwarae yn eich Tref/Cymuned - oherwydd y toriadau ariannol yr oedd Cyngor Gwynedd yn ei wynebu roeddynt yn edrych ar opsiynau unai i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Cymuned neu grŵp cymunedol i gymryd cyfrifoldeb o'r meysydd chwarae. Cytunwyd i ofyn i Bartneriaeth Penllyn drafod y mater gyda Chyngor Gwynedd.

ii) Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori y byddai'r gweithlu yn clirio'r biniau halen pan fyddai amser yn caniatáu.

iii) Gwybodaeth am eu rhaglen adnewyddu pas bws.

iv) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Rhagfyr.

b) Amrywiol.

i) Cyfoeth Naturiol Cymru – Ymgynghoriad Llyn Tegid - diweddariad ar y cynlluniau i ddiogelu rhag digwyddiadau llifogydd eithriadol.

ii) Llywodraeth Cymru – Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972'ar gyfer 2020-21.

iii) Parc Cenedlaethol Eryri - Llythyr yn ein cynghori o'r gofrestr tai fforddiadwy ar-lein 'Tai Teg'.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w gefnogi:-
C19/1032/04/LL – Adeiladu modurdy, gweithdy a storfa. Bryn, Llandderfel.

vi) Materion Ariannol.

a) Adolygu cyflog y clerch.

Adolygwyd cyflog y clerch a chytunwyd i'w gadw'r un fath yn 2020/21.

b) Cyllideb a Praesept 2020/21.

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunodd y cynghorwyr i barhau i beidio hawlio unrhyw daliadau anorfod ac y byddant yn dewis optio allan o hyn ym mis Ebrill. Ychwanegwyd arian ar gyfer cynnal a diweddarau'r wefan. Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer nwyddau swyddfa, yswiriant, tal aelodaeth Un Llais Cymru, cyfraniad Partneriaeth Penllyn ac yr ad-daliad TAW. Trafodwyd y swm o arian a gadwir wrth gefn a chytunwyd bod y swm yn ddigonol. Cytunwyd ar y gyllideb derfynol a phasiwyd i gadw'r Praesept o £9,000 ar gyfer 2020-21.

c) DWF.

Cafwyd cadarnhad fod y cwmni wedi dod i gytundeb gyda chwmni yswiriant y car darodd yn erbyn y lloches bws yn Sarnau. Derbyniwyd ad-daliad o £207.10 o'r £250 'excess' a oedd yn ddyledus i'r Cyngor.

ch) Cofrestr Claddedigaethau newydd.

Cytunwyd i archebu cofrestr newydd ar gyfer y mynwentydd.

d) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Hyd-Rhag), TWE, Swyddfa Archwilio Cymru (archwiliad allanol), HG Web Designs (Gwefan), Cyngor Gwynedd (bin gwastraff gardd mynwent Llandderfel), ICO.

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

- i) Gwrych gyferbyn a Tŷ Isaf, Llandderfel - roedd y gwrych angen ei dorri'n ôl.
- ii) Dŵr yn dod i'r ffordd ym mhentref Sarnau - gofynnwyd i'r clerc ofyn iddynt ail ymweld â'r pentref gan fod y dŵr yn parhau i lifo lawr o'r graig i gyfeiriad Caerau.
- iii) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r Asiantaeth Cefnffyrdd gan nad oeddynt wedi ail osod carreg y cylfat ar ffordd Hengaer, Glanrafon. Cytunwyd i ofyn iddynt am ddiweddariad ynglŷn â chael arwydd Cwm Main ar gyffordd Cefnddwysarn a'r cais i symud y polyn trydan ar y gyffordd hefyd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Chwefror 4ydd yn Neuadd Mynach am 7.30
y.h.**